

# ADRODDIAD YSGOL EIFIONYDD HYDREF 2014



**Ffarwelio.** Ar ddiwedd tymor yr haf ffarweliwyd â dau athro o'r ysgol sef Mrs. Elin McGowan a Mr. Fred Smith. Diolch i'r ddau am eu gwasanaeth i'r Ysgol a dymunwn yn dda iddynt. Hoffwn ddiolch hefyd i Miss Catrin Elan a fu yn llenwi mewn dros gyfnod mamolaeth yn yr adran Gymraeg. Dymunwn yn dda iddi yn ei swydd yn Ysgol Tryfan.

Hoffem fanteisio ar y cyfle i groesawu Mrs. Caryl Roberts fel athrawes yn yr adran Gerdd am ddeuddydd yr wythnos yn ystod Tymor yr Hydref.

**Llongyfarchiadau** - Dymunwn longyfarch disgyblion blwyddyn 11 y llynedd ar eu llwyddiant yn yr arholiadau TGAU. Dymunwn yn dda iddynt yn y dyfodol.

Llongyfarchiadau hefyd i'n cyn ddisgyblion a fu'n astudio yng Ngholeg Meirion Dwyfor a Choleg Menai. Dymunwn yn dda iddynt ar ddechrau eu cyfnod o astudio ym Mhrifysgolion ledled y wlad.

## Caiacio



Llongyfarchiadau i Elise Connor (chwith) a Sian Rees sydd wedi ennill cystadleuaeth caiacio Ysgolion 5x60 Meirion Dwyfor yng Nglanllyn. Mi fydd y ddwy yn cynrychioli Meirion Dwyfor yng Nghystadlaethau Gwynedd a Môn ar y 9fed o Hydref yn Llanberis. Dymuniadau gorau i'r ddwy.

## Cassia Pike



Llongyfarchiadau i Cassia Pike ar gael ei dewis i gynrychioli tîm dan 16 pêl droed Cymru eleni. Mi fydd yn mynd am bythefnos o hyfforddiant i Sbaen gyda'r tîm ddiwedd y mis. Dymunwn bob llwyddiant iddi ac i'r tîm.

Cari Davies



Llongyfarchiadau i Cari Davies ar gael ei dewis i gynrhychioli tîm hoci dan 16 Gwynedd. Cafodd y tîm lwyddiant ysgubol yn Nhwrnament Gogledd Cymru ddiwedd mis Medi. Mae Cari wedi cael ei dewis i fynychu treialon hoci Gogledd Cymru. Dymuniadau gorau iddi.



Ar ddydd Llun 29 o Fedi daeth y staff i gyd at ei gilydd yn ystod yr awr ginio i fwynhau paned a chacen er budd elusen Macmillan. Cyfranwyd y cacenau gan staff a chyfeillion yr ysgol a llwyddwyd i godi £250 tuag at yr achos da. Diolch i Mrs. Miriam Amlyn am drefnu'r gweithgaredd.

**Llwyddiant y Tîm Rygbi** : Llongyfarchiadau i dim Rygbi Blwyddyn 11 ar ennill y gêm yn erbyn Ysgol Botwnnog. Y sgôr oedd 14 - 7. Da iawn hogiau.

Gweler hefyd Powerpoint canlyniadau CA4.

Diolch  
Heulwen